Cygnor y Gweithlu Addysg

Education Workforce Council

# Priodoldeb i Ymarfer

## Addasrwydd i gofrestru yng Nghymru

## Beth yw Cyngor y Gweithlu Addysg?

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg (‘CGA’) yn gorff annibynnol sy’n rheoleiddio ymarferwyr addysg yng Nghymru er budd y cyhoedd – eich budd chi.

Ystyr ‘rheoleiddio’ yw bod CGA yn gyfrifol am sicrhau bod ymarferwyr addysg yn addas i ymarfer yng Nghymru. Mae cyflawni’r gwaith hwn yn rhoi diogelwch a hyder yn y proffesiynau addysg i chi, i ddysgwyr ac i ymarferwyr addysg. Mae gan bawb hawl i ddisgwyl y safonau uchaf gan ymarferwyr wrth iddynt addysgu dysgwyr, yn enwedig plant a phobl ifanc.

## Sut mae CGA yn rheoleiddio?

Mae CGA yn rheoleiddio drwy gynnal Cofrestr Ymarferwyr Addysg yng Nghymru.

**Ni ellir cyflogi person fel:**

- athro cymwys sy’n cyflawni gwaith penodedig athro mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru*;
- gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol sy'n cefnogi’r gwasanaethau a nodir dan Reoliad 18A(2), fel y’i diwygiwyd o'r Rheoliadau mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru;
- athro ysgol annibynnol sy'n darparu (neu'n dymuno darparu) gwasanaethau athro ysgol annibynnol mewn, neu ar gyfer ysgol annibynnol yng Nghymru;
- gweithiwr cymorth ysgol annibynnol sy'n cefnogi (neu'n dymuno cefnogi) gwasanaethau athro ysgol annibynnol mewn, neu ar gyfer ysgol annibynnol yng Nghymru;
- person sy’n darparu addysg mewn neu ar ran sefydliad addysg bellach yng Nghymru (yn ddarostyngedig i’r eithriadau a nodir o dan Reoliad 19)*;
- gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach sy'n darparu'r gwasanaethau a nodir yn adran 16(2) o *Ddeddf Addysg (Cymru) 2014* mewn neu ar ran sefydliad addysg bellach yng Nghymru;
- person sy’n rheolu addysgu a dysgu mewn neu ar gyfer sefydliad addysg bellach yng Nghymru;
- athro ysgol annibynnol arbennig ôl-16 sy'n darparu (neu'n dymuno darparu) gwasanaethau athro ysgol annibynnol arbennig ôl-16 mewn, neu ar gyfer ysgol annibynnol yng Nghymru;
- gweithiwr cymorth dysgu ysgol annibynnol arbennig ôl-16 sy'n cefnogi (neu'n dymuno cefnogi) gwasanaethau athro ysgol annibynnol arbennig ôl-16 mewn, neu ar gyfer ysgol annibynnol yng Nghymru;
- ymarferydd dysgu seiliedig ar waith sy’n darparu gwasanaethau i neu ar ran corff dysgu seiliedig ar waith (heblaw fel gwirfoddolwr, ac yn ddarostyngedig i’r eithriad a nodir o dan Reoliad 7(2));
- person sy’n darparu addysg a hyfforddiant i oedolion ar gyfer darparwr addysg oedolion yn y gymuned*;
- gweithiwr ieuenctid sy’n darparu gwasanaethau datblygu ieuenctid i neu ar ran cyflogwr perthnasol (heblaw fel gwirfoddolwr, ac yn ddarostyngedig i’r eithriad a nodir o dan Reoliad 4(2))*;
- gweithiwr cymorth ieuenctid sy’n darparu gwasanaethau datblygu ieuenctid i neu ar ran cyflogwr perthnasol (heblaw fel gwirfoddolwr, ac yn ddarostyngedig i’r eithriad a nodir o dan Reoliad 6(2))*,

**oni bai ei fod wedi’i gofrestru gyda CGA.**

**Mae cofrestru'n rhoi sicrwydd i gyflogwr a'r cyhoedd nad oes gan berson cofrestredig ddim byd perthnasol wedi'i gofnodi yn ei erbyn a allai ei wneud yn anaddas i addysgu dysgwyr, yn enwedig plant a phobl ifanc. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd bod athro ysgol yn meddu ar Statws Athro Cymwysedig (SAC).**

Mae CGA yn gofyn i bob ymarferydd addysg ddatgan ei hanes troseddol a disgyblaethol/rheoleiddiol cyn cofrestru.

* *mae gofyn cael lleiafswm cymwysterau ar gyfer y categorïau hyn. Mae mwy o wybodaeth ar y wefan* www.cga.cymru/cofretru

## Pam mae CGA yn cyflawni gwiriadau?

Mae'r gwiriadau cyn cofrestru a gyflawnir gan CGA yn gweithredu fel cam diogelu er mwyn sicrhau, cyhyd â phosibl, na chaniateir i unrhyw berson a allai fod yn anaddas i ymarfer yn y proffesiynau addysgu gofrestru yng Nghymru.

Wrth ymgeisio i gofrestru, disgwylir i bersonau cofrestredig hysbysu CGA o unrhyw gamau disgyblu/rheoleiddio/troseddol yn eu herbyn sydd yn yr arfaeth neu yn y gorffennol. Mae methu â gwneud hyn yn cael ei gymryd o ddifrif.

## Beth sy'n gwneud i ymarferydd addysg yn addas neu'n anaddas i gofrestru?

**Ystyr 'addas' yw bod CGA yn fodlon bod yr ymgeisydd yn bodloni'r safon a ddisgwylir gan berson cofrestredig.**

## Beth yw'r 'safonau'?

Mae gan CGA God Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol sy'n ganllaw i'r safonau y gall dysgwyr, rhieni a'r cyhoedd eu disgwyl gan bersonau cofrestredig, ac mae'n helpu ymarferwyr addysg i ddeall yr hyn mae eraill yn ei ddisgwyl ganddynt fel gweithwyr proffesiynol.

Nid yw'r Cod yn trafod pob enghraifft o'r safonau y mae angen i ymarferwyr addysg eu bodloni. Canllaw yw e.

Ni fydd CGA yn caniatáu i ymarferydd addysg ymuno â'r Gofrestr lle mae ganddo bryderon difrifol nad yw safonau wedi'u bodloni.

## Cyfarfodydd

Bydd CGA yn ystyried yr holl wybodaeth y bydd yn ei derbyn am ymarferydd addysg cyn caniatáu cofrestru. Lle bydd gwybodaeth o'r fath yn codi cwestiynau difrifol am addasrwydd unigolyn, bydd yn ei g/wahodd i gyfarfod.

Fel enghraifft, bydd gan CGA bryderon difrifol am yr ymddygiad canlynol:

- Enghreifftiau dro ar ôl tro o anonestrwydd
- Perthynas amhriodol gyda dysgwr
- Troseddau difrifol
- Camdrin dysgwr yn emosiynol a/ neu’n gorfforol

Lle nad yw CGA yn fodlon ynghylch addasrwydd ar ôl cyfarfod â'r ymarferydd, gallai benderfynu gwrthod derbyn ef neu hi i'r Gofrestr.

## Ynghylch y daflen hon

Crynodeb bras yw’r wybodaeth yn y daflen hon am weithdrefnau addasrwydd CGA.

Yn yr holl amgylchiadau, *Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015* fel y'i diwygiwyd a *Rheolau Cofrestru 2024* CGA sy’n cael blaenoriaeth. Mae'r Rheolau a gwybodaeth arall am rôl rheoleiddio CGA i'w gweld yn www.cga.cymru

Nid oes unrhyw reolau cyffredinol yn berthnasol wrth benderfynu a yw ymarferydd addysg yn addas i gofrestru.

## Cyswllt allweddol

**Cyfeiriad** **Y Tîm Priodoldeb i Ymarfer**, Cyngor y Gweithlu Addysg, 9fed Llawr, Eastgate House, 35-43 Ffordd Casnewydd, Caerdydd, CF24 0AB

**Ffôn** 029 2046 0099

**E-bost** priodoldebiymarfer@cga.cymru

Caiff personau cofrestredig sy’n ddarostyngedig i’r gweithrediadau hyn gyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i CGA yn Gymraeg neu Saesneg.